

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 30 Tachwedd 2017

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 6 RHAGFYR 2017** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 9 - 26)

Derbyn -

(a) cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 20 Medi 2017 (copi wedi'i amgáu).

(b) cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2017 (copi wedi'i amgáu).

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau busnes canlynol yn cael eu hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraff 12 a 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf yn cael ei datgelu.

5 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 523920 (Tudalennau 27 - 38)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau benderfynu ar adnewyddu cais gan Ymgeisydd Rhif 523920.

6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 516098 (Tudalennau 39 - 42)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais gan Ymgeisydd Rhif 516098.

7 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 517116 (Tudalennau 43 - 58)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais gan Ymgeisydd Rhif 517116.

8 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD DR186 (Tudalennau 59 - 88)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau benderfynu ar adnewyddu cais gan Ymgeisydd Rhif 523920.

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

9 DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I FANYLION PRESENNOL CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT (Tudalennau 89 - 92)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn manylu ar ddiwygiadau arfaethedig i fanylion presennol cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

10 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU TACSI (Tudalennau 93 - 102)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn manylu ar newidiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau trwyddedu cerbydau hacni a cherbyd hurio preifat.

11 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DABL FFIOEDD A THALIADAU CERBYDAU HACNI (Tudalennau 103 - 112)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau adolygu ffioedd presennol cerbydau hacni (tacsis).

12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU (Tudalennau 113 - 116)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w gymeradwyo.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Hugh Carson Irving (Cadeirydd)

Alan James (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield

Peter Scott

Brian Jones

Tony Thomas

Barry Mellor

Rhys Thomas

Melvyn Mile

Huw Williams

Arwel Roberts

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU
GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM
DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO
PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL**

CAM	DISGRIFIAD
1.	Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol.
2.	Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4.
3.	Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad.
4.	Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras
5.	Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny.
6.	Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion.
7.	Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.)
8.	Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol
9.	Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
10.	Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol. DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion.

11.	Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd.
12.	Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd.
13.	Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd.
14.	Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded.
15.	Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn).
16.	Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan: 1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. 2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded.
17.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl.
18.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gyloch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Mercher, 20 Medi 2017 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Hugh Irving (Cadeirydd), Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Barry Mellor, Peter Scott, Tony Thomas a Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddogion Trwyddedu (NJ a JT), Swyddogion Gorfodaeth (HB a TB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Cyngorwyr Melvyn Mile, Arwel Roberts a Rhys Thomas

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Y Cyngorydd Huw Williams – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 6 ar y Rhaglen
Y Cyngorydd Peter Scott – Cysylltiad Personol – Eitem 7 ar y Rhaglen

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2017.

Cywirdeb – Roedd y Cyngorydd Tony Thomas wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf ond nid oedd wedi'i gynnwys ar y rhestr o'r aelodau presennol yn y cofnodion.

PENDERFYNWYD yn amodol ar y pwynt o gywirdeb uchod, derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2017 fel cofnod cywir.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

5 CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) chais oddi wrth berchennog cerbyd hacni i drwyddedu cerbyd er mwyn ei ddefnyddio fel cerbyd hacni.
- (ii) nid oedd swyddogion wedi bod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais, gan nad oedd y cerbyd a gyflwynwyd ar gyfer trwyddedu'n cydymffurfio â'r fanyleb, fel y manylir ym Mholisi, Manyleb ac Amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor, ac
- (iii) estyn gwahoddiad i'r Gyrrwr ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) yr adroddiad a dynnodd sylw at bolisi'r Cyngor a oedd yn nodi na ddylai cerbydau sy'n destun cais newydd fod yn hŷn na phum mlwydd oed ac eglurodd nad oedd disgrisiwn bellach yn y polisi i gael gwared â'r terfyn oedran ar gyfer hŷn cerbydau mewn cyflwr eithriadol o dda. Gan fod y cerbyd a oedd yn destun y cais yn naw mlwydd oed, nid oedd yn cydymffurfio â'r manylebau cyfredol. O ganlyniad, gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais yr Ymgeisydd i ymadael â pholisi'r Cyngor yn yr achos hwn er mwyn caniatáu'r cais y gofynnwyd amdano.

Derbyniodd yr Ymgeisydd y byddai caniatáu'r cais yn wyriad o'r polisi presennol ond roedd yn annog yr aelodau i wneud hynny yn yr achos hwn o ystyried safon a chyflwr y cerbyd; ei ymrwymiad i'w brynu, a'r ffaith nad oedd yn ymwybodol o'r newid mewn polisi neu byddai wedi cyflwyno'r cerbyd i'w drwyddedu yn gynharach. Rhoddodd hefyd hanes cefndir i'w fusnes a'i fwriad i drwyddedu'r cerbyd er mwyn cyflawni gwaith contract yn effeithiol. Ymatebodd yr Ymgeisydd i gwestiynau'r aelodau ynghylch amseriad ei gais a gweithrediad ei fusnes, gan gynnwys caffael y cerbyd ar gyfer trwyddedu.

O ran y newidiadau i'r polisi, dywedodd y swyddogion bod proses ymgynghori gynhwysfawr wedi'i chynnal ac yn dilyn hynny anfonwyd gwybodaeth ddwywaith at ddeiliaid trwyddedau ynglŷn â gweithredu'r polisi newydd a'i oblygiadau gyda phwyslais arbennig ar y terfyn oedran ar gyfer cerbydau trwyddedig. Roedd yr Ymgeisydd yn bendant nad oedd wedi bod yn ymwybodol o'r newid polisi a honnodd mai oddi wrth gydweithredwr y cafodd wybod am y ffaith. Wrth wneud ei ddatganiad terfynol, dadleuodd, yn hytrach gwyro oddi wrth y polisi, mai manylyn technegol oedd hyn, gan fod y cais am drwydded wedi'i gyflwyno un diwrnod gwaith yn rhy hwyr i'w ystyried o dan y rheolau polisi blaenorol.

Yn y fan hon, cafodd y pwyllgor egwyl i ystyried yr achos a -

PENDERFYNWYD gwrthod y cais i'r cerbyd gael ei drwyddedu fel cerbyd hacni.

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried yr achos a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn ofalus ac er bod rhywfaint o gydymdeimlad am ei sefyllfa, ar y cyfan nid oedd y pwyllgor yn ystyried bod achos wedi ei wneud a fyddai'n eu perswadio i wyro o'u polisi yn yr

achos hwn. Nododd polisi'r Cyngor y dylai cerbydau a drwyddedwyd o dan gais newydd fod hyd at bum mlwydd oed ar yr hynaf o'r dyddiad cofrestriad cyntaf. Gan fod y cerbyd a oedd yn destun y cais yn yr achos hwn yn naw mlwydd oed, nid oedd yn cydymffurfio â'r polisi. Roedd y pwyllgor hefyd o'r farn bod digon o ymgynghori wedi digwydd o ran y newidiadau polisi a rhoddwyd digon o rybudd i ddeiliaid trwyddedau yn hynny o beth, ac felly dylai'r Ymgeisydd fod wedi gwybod am y newid yn y polisi.

Cyfleodd y Cadeirydd benderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau dros hynny i'r Ymgeisydd a chafodd wybod am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i'r Llys Ynadon o fewn un diwrnod ar hugain.

6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 519937

[Datganodd y Cynghorydd Huw Williams gysylltiad personol yn yr eitem hon gan fod gweithredwr y gwasanaethau tacsï a ddefnyddiai yn perthyn i'r Ymgeisydd.]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) chais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 519937 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) swyddogion heb fod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais yng ngoleuni'r ddau euogfarn moduro sy'n ymwneud â throseddau goryrru yn 2015 a ddatgelwyd yn dilyn gwiriad arferol ar Drwydded Yrru DVLA yr Ymgeisydd na chafodd ei ddatgelu gan yr Ymgeisydd;
- (iii) polisi y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, a'r
- (iv) estyn gwahoddiad i'r Gyrwr ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol yng nghwmni perthynas iddo a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi (HB) yr adroddiad gan fanylu ar y ffeithiau'r achos.

Ymhelaethodd yr Ymgeisydd ar ei brofiad gyrru a'i hanes cyflogaeth, a dywedodd ei fod yn yrrwr gonest, dibynadwy a gofalus. Roedd wedi camgymeryd wrth gredu bod y ddau euogfarn goryrru a ddatgelwyd gan y gwiriad DVLA wedi pasio a chyfeiriodd at ei gamgymeriad wrth lenwi'r ffurflen gais ac roedd yn ddrwg iawn ganddo, gan roi sicrwydd na fu unrhyw fwriad i dwyllo. Dywedodd hefyd, pe bai aelodau o blaid caniatáu ei gais, roedd wedi sicrhau cyflogaeth gyda chwmni tacsï lleol. Wrth wneud ei ddatganiad terfynol, ailadroddodd yr Ymgeisydd bod methu â datgelu'r euogfarnau moduro wedi bod yn gamgymeriad gwirioneddol ar ei ran ac roedd yn wirioneddol ddrwg ganddo ac fe roddodd sicrwydd ei fod yn yrrwr cymwys.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

PENDERFYNWYD caniatáu'r cais am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 519937, gyda rhybudd ffurfiol yn cael ei roi ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd Aelodau wedi ystyried ffeithiau'r achos yn ofalus a'r esboniad gan yr Ymgeisydd o ran y troseddau a'i resymau dros beidio â datgelu ei euogfarnau perthnasol. Canfu'r pwyllgor yr esboniad a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd i fod yn gredadwy a bod ei ediferwch dros fethu â datgelu gwybodaeth yn ddilys. O ganlyniad, canfu'r aelodau fod yr Ymgeisydd yn ddibynadwy ac o gymeriad da ac roedd yn ei ystyried yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Fodd bynnag, roedd peidio â datgelu euogfarnau'n fater difrifol ac yn peri pryder a phwysleisiodd yr aelodau wrth yr Ymgeisydd pa mor bwysig yw datgelu'n llawn a chywir, a chytunwyd y dylid rhoi rhybudd ffurfiol am ei ymddygiad yn y dyfodol a chadw cofnod ar ffeil .

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

7 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 520399

[Datganodd y Cynghorydd Peter Scott gysylltiad personol yn yr eitem hon gan ei fod yn adnabod perthynas i'r Ymgeisydd a'i fusnes tacsî].

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) chais i adnewyddu a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 520399 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) roedd gwiriad arferol ar Drwydded Yrru DVLA yr Ymgeisydd wedi datgelu euogfarn goryrru yn Ionawr 2017 nad oedd yr Ymgeisydd wedi'i ddatgelu yn unol ag amodau trwyddedu neu ar ei ffurf adnewyddu;
- (iii) polisi y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, a'r
- (iv) estyn gwahoddiad i'r Ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais i adnewyddu ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol yng nghwmni perthynas iddo a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi (TB) yr adroddiad gan fanylu ar y ffeithiau'r achos.

Eglurodd yr Ymgeisydd, wrth frysio i lenwi'r cais adnewyddu ar amser, nad oedd wedi sylweddoli y dylai fod wedi datgan y drosedd goryrru fel euogfarn gan nad oedd erioed wedi bod mewn trafferth gyda'r heddlu nac wedi cael unrhyw euogfarnau traffig cyn hynny. Eglurodd yr amgylchiadau o gwmpas yr euogfarn

goryrru lle'r oedd ymddygiad ei deithwyr wedi tynnu ei sylw. Hefyd, darparodd yr Ymgeisydd rai geirdaon am ei gymeriad oddi wrth gwsmeriaid yn ardystio ei gymeriad da a siaradodd ei berthynas hefyd, a oedd yn gyflogwr iddo, am ei ddibynadwyedd a faint y gellid ymddiried ynddo.

Yn ystod yr holi, derbyniwyd ei fod wedi'i nodi'n eglur ar y ffurflen fod yr euogfarnau y cyfeiriwyd atynt yn golygu euogfarnau moduro. Cynghorodd yr Ymgeisydd, yn ei frys i lenwi'r ffurflen, ei fod wedi anwybyddu'r cyfeiriad hwnnw a honnodd ei fod yn gangymeriad gwirioneddol i beidio â datgelu'r euogfarn goryrru ac nad oedd wedi bod yn anonest. Cadarnhaodd mai hon oedd ei ffurflen adnewyddu gyntaf ac wrth lenwi'r ffurflen gais wreiddiol nid oedd ganddo unrhyw euogfarnau moduro i'w datgelu. Yn ei ddatganiad terfynol, ymddiheurodd yr Ymgeisydd i'r pwyllgor am ei gangymeriad.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

PENDERFYNWYD bod y cais i adnewyddu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 520399, gyda rhybudd ffurfiol yn cael ei roi ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd Aelodau wedi ystyried ffeithiau'r achos yn ofalus, a'r mesur lliniaru a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd o ran peidio datgelu gwybodaeth. Derbyniodd y pwyllgor y geirdaon cymeriad a gyflwynwyd yn ardystio i gymeriad da'r Ymgeisydd a derbyniwyd hefyd ei esboniad ynghylch methu datgelu ei euogfarn goryrru. O ganlyniad, ystyriodd yr aelodau fod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded a phenderfynodd ganiatáu'r cais adnewyddu. Fodd bynnag, roedd methu datgelu'r euogfarn goryrru yn achos pryder ac roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn briodol rhoi rhybudd ffurfiol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

Ar y pwynt hwn (10.50 am) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

SESIWN AGORED

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

Ar y pwynt hwn, cytunwyd i amrywio trefn y rhaglen i ddarparu ar gyfer unigolion a oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol.

8 ADOLYGU TREFN GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â datblygu Polisi Gyrrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i reoleiddio a chefnogi'r gyfundrefn cerbydau hacni a preifat hurio yn well yn y sir.

Er bod gyrwyr yn destun gwiriadau amrywiol i asesu eu haddasrwydd, nid oedd polisi ysgrifenedig ar hyn o bryd a gofynnodd swyddogion am farn yr aelodau ar y gyfundrefn a meysydd penodol i'w gwella fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad. Tynnwyd sylw'r Aelodau at ddogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru (ynghlwm wrth yr adroddiad) ar ddiwygio deddfwriaeth tacsï a allai effeithio ar reoleiddio yn y dyfodol a byddai'n cael ei ystyried wrth ddatblygu'r polisi.

Rhoddodd Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a thrafodwyd y meysydd gwella posibl fel a ganlyn:

Profion Meddygol - roedd cefnogaeth gyffredinol i symud i Safonau Ffitrwydd Meddygol Grŵp 2 fel y'i cymhwysir gan y DVLA ar gyfer gyrwyr HGV a bysiau. Cadarnhaodd y swyddogion bod angen i yrwyr hysbysu'r awdurdod trwyddedu o newidiadau mewn hanes meddygol a byddai'r elfen hon yn cael ei ysgrifennu yn y polisi newydd.

Cymhwyster - nid oedd cymhwyster ar gyfer gyrwyr trwyddedig ar hyn o bryd ac roedd aelodau'n croesawu cyflwyno cymhwyster addas ar gyfer ymgeiswyr newydd y gellid ei ddefnyddio hefyd fel offeryn gorfodaeth ychwanegol ar gyfer unrhyw dor- amodau o ran trwyddedau tacsï er mwyn codi safonau a gwella ymddygiad. Cynghorodd swyddogion am gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol yn cwmpasu meysydd fel gwasanaeth cwsmer a safonau gyrru a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol eraill. Gofynnodd yr Aelodau bod swyddogion yn ymgymryd ag ymchwil pellach i'r opsiynau cyrsiau posibl a goblygiadau cost, gan gynnwys y cyrsiau hynny a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill. Cadarnhawyd y byddai cost y cwrs yn cael ei dalu gan yr unigolyn ac nid yr awdurdod trwyddedu.

Oedran a Phrofiad Gyrru - trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o gyflwyno cyfyngiad oedran isafswm i sicrhau bod gan ymgeiswyr brofiad a gwybodaeth briodol am yrru ond roeddent hefyd yn ofalus i ystyried gwahaniaethu ar sail oed a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Cytunodd y pwyllgor fod profiad gyrru yn feini prawf pwysig y mae'n rhaid i bob ymgeisydd ei ddangos.

Yn ogystal â'r uchod, trafododd yr aelodau gyda'r swyddogion a ellid gwneud mwy i sicrhau bod gyrwyr yn datgan euogfarnau moduro i'r awdurdod trwyddedu a chwmnïau yswiriant, yn enwedig o ystyried y goblygiadau am beidio â datgelu. Cytunwyd bod y ffurflenni cais yn cael eu hadolygu er mwyn asesu a ellid tynnu sylw at yr agwedd hon ymhellach a'i gwneud yn gliriach i ymgeiswyr, a chadarnhaodd swyddogion hefyd y gellid cynnwys cyfeiriad ychwanegol ar y ffurflen yn gofyn i ymgeiswyr ddatgan eu bod wedi hysbysu eu cwmni yswiriant o euogfarnau moduro perthnasol. Gellid hefyd cynnwys rhybuddion cryfach ynghylch datgelu euogfarnau yn y Polisi Euogfarnau Gyrwyr. Rhoddodd swyddogion sicrwydd bod camau rhagweithiol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater a bod trafodaethau'n parhau gyda'r Heddlu gyda'r bwriad o rannu gwybodaeth am euogfarnau gyrwyr.

PENDERFYNWYD –

- (a) *nodi cynnwys yr adroddiad, a*

- (b) *cyfarwyddo swyddogion i ddechrau llunio'r polisi drafft, gan ystyried barn yr aelodau fel y manylwyd uchod ac unrhyw ddatblygiadau o broses Llywodraeth Cymru, a dechrau ymgynghoriad Sir Ddinbych â phartion â diddordeb, gan adrodd yn ôl mewn cyfarfod diweddarach o'r pwyllgor.*

9 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFI OEDD TRWYDDEDU TACSI A THALIADAU TARIFF

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am gymeradwyaeth yr aelodau i ffioedd a thaliadau diwygiedig am drwyddedu cerbyd hacni a hurio preifat a gynigir i'w cyflwyno ochr yn ochr â newidiadau i wneud y broses drwyddedu'n fwy effeithlon.

Gallai'r Cyngor godi ffioedd am drwyddedau mewn perthynas â thrwyddedu cerbyd hacni a hurio preifat i dalu am gostau sy'n ymwneud â gweinyddu, archwilio, rheoli a goruchwilio. Ni ellid cynnwys costau gorfodi ac ni ellid gwneud elw. O ganlyniad, dyfeisiwyd methodoleg ffioedd a thaliadau er mwyn caniatáu adolygiad manwl o ffioedd a thaliadau yn unol â phrosesau trwyddedu perthnasol. Cynigiwyd hefyd adlinio'r strwythur ffioedd i ddarparu ar gyfer newidiadau a wnaed i'r broses drwyddedu er mwyn gwella gweinyddiaeth mewn modd na fyddai'n anfantais i ddeiliaid trwyddedau. Byddai unrhyw newid i ffioedd a thaliadau yn ddarostyngedig i rybudd cyhoeddus gydag unrhyw wrthwynebiad yn cael ei gyflwyno gerbron y pwyllgor. Nodwyd, na chynyddwyd unrhyw ffioedd a thaliadau am drwyddedu tacsii ers Ebrill 2008, ac eithrio cynnydd yn y ffi Gyrrwr Hurio Preifat yn 2009.

Eglurodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd nifer o faterion mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn â'r strwythur ffioedd, yn enwedig mewn perthynas â ffi y gweithredwyr hurio preifat arfaethedig yn ddibynnol ar nifer y cerbydau a weithredir, a chadarnhaodd fod ffioedd trwyddedu cerbyd yn aros yr un peth yn fras, fel ag yr oedd gyrrwr yn arbed costau yn sgil y cyfle i yrwr wneud cais am drwydded newydd neu adnewyddu trwydded am gyfnod o dair blynedd yn hytrach na'n flynyddol yn unol â'r prosesau newydd.

Cyfeiriwyd hefyd at y cynnig i gynnal adolygiad o daliadau tariff mesurydd tacsii a gweithredu ymgynghoriad ar y newidiadau hynny gyda chanfyddiadau yn cael eu hadrodd i'r Cabinet i'w gweithredu. Eglurwyd bod y tariffau mesurydd tacsii yn ymwneud â'r uchafswm ffioedd a thaliadau a osodwyd a gallai gweithredwyr godi swm is. O ystyried fod gosod taliadau tariff mesurydd tacsii yn benderfyniad i'r Cabinet, cefnogodd yr aelodau awgrym y Cadeirydd y dylai'r taliadau arfaethedig gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Trwyddedu i'w hystyried a'u hargymell i'r Cabinet eu gweithredu.

PENDERFYNWYD y byddai Aelodau yn -

- (a) *cymeradwyo'r ffioedd a'r taliadau yn Atodiad A yr adroddiad;*
- (b) *awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r newidiadau i'r ffioedd Trwyddedu Tacsii mewn papur newydd lleol ar gyfer yr ymgynghoriad angenrheidiol ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad, byddant yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2017;*

- (c) *Ile derbynnir unrhyw wrthwynebiadau, gofyn i'r Pwyllgor Trwyddedu ystyried y gwrthwynebiadau hynny yn eu cyfarfod nesaf gyda'r bwriad o weithredu (gyda neu heb addasiad) dim hwyrach na 1 Ionawr 2018;*
- (d) *nodir newidiadau gweinyddol i'r drefn drwyddedu, ac*
- (e) *awdurdodi swyddogion i gynnal adolygiad o ffioedd tariff tacsï ac ymgynghori fel bo'r angen gyda'r bwriad o adrodd ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor Trwyddedu i'w hystyried a'u hargymell i'r Cabinet i'w gweithredu.*

10 RHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â rhaglen waith arfaethedig y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2017/18.

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa bod y rhaglen waith yn ddogfen fyw ac yn cael ei diweddarau'n rheolaidd fel bo'n briodol.

PENDERFYNWYD *y dylid cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu fel y manylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

11 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) yn diweddarau'r aelodau ar y cynnydd gyda'r adolygiad o Bolisi Masnachu ar y Stryd cyfredol Sir Ddinbych.

Yn 2015, awdurdodwyd swyddogion gan y Pwyllgor Trwyddedu i adolygu'r polisi masnachu ar y stryd presennol er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau gyda'r gyfundrefn ac awgrymu gwelliannau i reoleiddio a chefnogi masnachu ar strydoedd y sir yn well. Ystyriwyd polisi drafft gan y Pwyllgor Trwyddedu yn Rhagfyr 2016, a chytunwyd y byddai ymgynghoriad cychwynnol yn cael ei wneud gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, ynghyd ag adrannau cyngor mewnol. Roedd y sylwadau a ddaeth i law o ganlyniad i'r ymgynghoriad cychwynnol wedi'u cynnwys yn y Polisi Masnachu ar y Stryd drafft a oedd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd adborth gan unigolion a thimau o fewn y Cyngor wedi codi materion pellach i'w hystyried a chynigiodd swyddogion y dylid cynnal trafodaethau pellach gyda masnachwyr "sefydlog" lleol, masnachwyr ar y stryd, cymunedau a thimau ehangach y Cyngor cyn cwblhau polisi i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu.

Nododd yr Aelodau gynnydd gyda'r adolygiad o'r Polisi Masnachu ar y stryd a -

PENDERFYNWYD *bod yr aelodau'n awdurdodi swyddogion i barhau i weithio ar bolisi masnachu ar y stryd drafft ac ymgysylltu â grwpiau ac unigolion perthnasol i ddatblygu polisi drafft o'r fath i'w gyflwyno mewn Pwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol.*

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

12 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 520398

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) chais i adnewyddu a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 520398 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) nad yw swyddogion wedi bod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais adnewyddu yn dilyn croniad o 9 pwynt cosb ar Drwydded Yrru DVLA yr Ymgeisydd ar gyfer mân droseddau traffig sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Hydref 2013 a Chwefror 2017 (yn ymwneud â thorri gofynion o ran rheoli'r cerbyd a methiant i gydymffurfio â signalau goleuadau traffig) a gadarnhawyd yn dilyn gwiriad arferol fel rhan o'r cais adnewyddu;
- (iii) polisi'r Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, a'r
- (iv) estyn gwahoddiad i'r Ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais i adnewyddu ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod a chadarnhaodd dderbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi (HB) yr adroddiad gan fanylu ar y ffeithiau'r achos.

Eglurodd yr Ymgeisydd yr amgylchiadau o gwmpas y tair trosedd traffig, roedd y drosedd gyntaf yn ymwneud â'i ddefnydd o ffôn di-law, ac roedd wedi cymryd bod y drosedd wedi pasio, roedd yn derbyn yr ail drosedd, ac roedd y drydedd drosedd wedi bod o ganlyniad i ddigwyddiad rhwng teithwyr yn ei gerbyd. Rhoddodd wybodaeth hefyd am ei amgylchiadau personol fel cyfiawnhad o'i weithredoedd a'i sefyllfa feddyliol. Atebodd yr Ymgeisydd gwestiynau pellach yr aelodau yn ymwneud â'r tair trosedd a chadarnhaodd ei fod wedi bod yn yrrwr trwyddedig am bron i ugain mlynedd. Yn ei ddatganiad terfynol, gofynnodd yr Ymgeisydd i'r aelodau ystyried ei gamau lliniaru a'i gofnod da blaenorol wrth wneud eu penderfyniad.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

PENDERFYNWYD bod y cais i adnewyddu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 520398 yn cael ei ganiatáu, gyda rhybudd ffurfiol yn cael ei roi ynghylch ei euogfarnau moduro a'i ymddygiad yn y dyfodol.

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Ystyriodd Aelodau ffeithiau'r achos a'r ple lliniaru a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn ofalus. Mynegwyd pryder ynglŷn â chronni pwyntiau cosb ond ar ôl ystyried y ple lliniaru, gan gynnwys cofnod da blaenorol yr Ymgeisydd, ac o gofio bod y drosedd gyntaf wedi digwydd dros dair blynedd yn ôl, roedd y pwyllgor yn fodlon bod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Cafwyd peth dadl ynglŷn â gosod sancsiwn o ystyried casglu pwyntiau cosb a rhoddwyd ystyriaeth i atal y drwydded am gyfnod priodol. Ar y cyd, fodd bynnag, penderfynwyd rhoi rhybudd ffurfiol ynghylch ymddygiad yn y dyfodol. Nodwyd mewn perthynas â'i fethiant i gydymffurfio â signalau goleuadau traffig ddwywaith, ei fod yn gwybod bod yr ardal yn llebwynt mawr a dylai yrru gyda mwy o ofal ac na fyddai'r pwyllgor yn edrych yn ffafriol ar drydedd euogfarn am yr un drosedd.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

13 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 516098

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cais hwn wedi'i dynnu'n ôl o'r rhaglen.

SESIWN AGORED

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

14 CAIS AM HYSBYSEBU AR GERBYD HACNI

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

- (i) cais gan Berchennog Cerbyd Hacni am gymeradwyaeth i arddangos arwyddluniau ar ei gerbyd trwyddedig (Atodiad A i'r adroddiad);
- (ii) cyfeiriodd at bolisi cyfredol y Cyngor a manyleb y cerbyd yn amlinellu'r gofynion derbyniol sy'n ymwneud ag arwyddion, hysbysebu a lifrai cerbydau trwyddedig (Atodiad B i'r adroddiad), ac
- (iii) amlygwyd goblygiadau posib ar gyfer diogelwch y cyhoedd wrth ganiatáu ceisiadau i arddangos arwyddluniau chwaraeon ac arwyddion gwladgarol a holwyd a ddylid diwygio'r polisi presennol ar y sail honno.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu (JT) grynodedd o'r adroddiad a rhoddwyd y rhesymau dros y cais gael ei gyfeirio at y pwyllgor o ystyried y goblygiadau posib wrth ganiatáu arwyddluniau o'r math hwn a allai ddenu sylw annisgwyl, gyda phryderon am ddiogelwch gyrwyr pe bai gan rywun broblem gydag arwydd penodol.

Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi cefnogi Clwb Criced Sir Gaerhirfryn ers blynnyddoedd lawer ac wedi dangos yr arwyddlun ar ei gerbydau trwyddedig yn y gorffennol. Cyflwynodd fod yr arwyddion yn briodol mewn cymdeithas ddemocrataidd a'u bod yn ddiniwed ac roedd yn dymuno dangos ei deyrngarwch i'r Clwb Criced trwy arddangos yr arwyddlun ar ei gerbyd. Fe wnaeth swyddogion

hefyd ystyried y gallai'r cyhoedd feddwl fod y cerbyd wedi cael ei noddi gan y Clwb Criced pe bai'r arwyddluniau hyn yn cael eu harddangos. Mewn ymateb dywedodd yr Ymgeisydd bod car noddedig fel arfer â graffeg dros y cerbyd i gyd.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

PENDERFYNWYD –

- (a) *bod y cais i arddangos arwyddlun yn cael ei ganiatáu fel y gwnaed cais amdano, a*
- (b) *Bod ceisiadau yn y dyfodol i arddangos arwyddluniau yn cael eu hystyried yn unigol ar eu rhinweddau eu hunain.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Ar ôl ystyried yr adroddiad a chyflwyniad yr Ymgeisydd, roedd yr aelodau yn fodlon ei bod yn briodol i'r arwyddluniau gael eu harddangos ar y cerbyd fel y gwnaed cais amdano. Cydnabuwyd y gallai arwyddluniau penodol o'r math hwn ddenu sylw diangen ond roedd yr aelodau o'r farn nad oedd angen newid polisi ac y dylid penderfynu ar bob cais ar ei rinweddau ei hun.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

15 ADOLYGU – DEDDF GAMBLO 2005 DATGANIAD O EGWYDDORION

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) yn diweddarau'r aelodau ar y cynnydd gyda'r adolygiad o Ddatganiad Egwyddorion y Cyngor ar gyfer Deddf Gamblo 2005.

Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad statudol i adolygu'r Datganiad o Egwyddorion bob tair blynedd. Roedd y ddogfen ddrafft wedi'i datblygu gan y chwe awdurdod trwyddedu yng Ngogledd Cymru i sicrhau cysondeb mewn materion yn ymwneud â materion a swyddogaethau Gamblo, ac roedd ystyriaeth ddyledus wedi'i rhoi o amcanion trwyddedu Deddf Gamblo 2005 a'r Comisiwn Gamblo 'Canllaw Awdurdodau Trwyddedu' fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Roedd yr Aelodau wedi cymeradwyo'r polisi drafft ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol yn eu cyfarfod diwethaf a darparwyd manylion y broses ymgynghori yn yr adroddiad.

Nododd yr Aelodau'r cynnydd a wnaed gyda'r adolygiad o Ddatganiad Egwyddorion y Cyngor ar gyfer y Ddeddf Gamblo 2005.

PENDERFYNWYD *bod Aelodau yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn awdurdodi Swyddogion i barhau i weithio ar y fersiwn drafft o'r polisi drwy gasglu unrhyw ymatebion a dderbyniwyd a chyflwyno fersiwn terfynol i'r Aelodau i'w ystyried yn eu cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2017.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1b, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 18 Hydref 2017 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Hugh Irving (Cadeirydd), Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Barry Mellor, Melvyn Mile, Tony Thomas a Huw Williams

Sylwedyddion – Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Peiriannydd Cydymffurfiaeth Fflyd (JH), Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Gorfodi (HB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Arwel Roberts, Peter Scott a Rhys Thomas.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 4 ar y rhaglen -

Datganodd y Cyngorydd Joan Butterfield gysylltiad oherwydd ei bod weithiau yn defnyddio gwasanaethau tacsï'r ymgeisydd (Leddon's Taxis).

Datganodd y Cyngorydd Alan James gysylltiad oherwydd ei fod yn adnabod ac yn defnyddio gwasanaethau tacsï (Town & Country Taxis) cefnogwr yr ymgeisydd.

Datganodd y Cyngorydd Tony Thomas gysylltiad oherwydd bod yr ymgeisydd yn byw yn ei ward.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â'r canlynol –

- (i) cais a dderbyniwyd gan berchennog cerbyd hacni i drwyddedu cerbyd at ddibenion cerbyd hacni;
- (ii) nid oedd swyddogion wedi bod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais gan nad oedd y cerbyd a gyflwynwyd ar gyfer trwyddedu yn cydymffurfio â'r fanyleb o ran

gofod coesau teithwyr fel y manylir yn nogfen Polisi, Manyleb ac Amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor;

- (iii) manylion a ddarparwyd ynglŷn â gofynion seddau awdurdodau eraill, gyda'r swyddogion yn dod i'r casgliad nad oes safon genedlaethol na chanllawiau ar gyfer gofod coesau, a
- (iv) bod yr ymgeisydd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig (cyfrinachol, Atodiad 1) i gefnogi ei gais a'i fod wedi ei wahodd i'r cyfarfod.

Roedd yr ymgeisydd, Mr T. Leddon (Leddon's Taxis) yn bresennol gyda'i gefnogwr Mr G. Higginson (Town & Country Taxis).

[Ar y pwynt hwn dywedodd yr ymgeisydd nad oedd wedi derbyn yr adroddiad na gweithdrefnau'r pwyllgor. Felly, cafodd y cyfarfod ei ohirio er mwyn rhoi amser iddo dderbyn a darllen y dogfennau perthnasol. Ar ôl ailddechrau'r cyfarfod cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn fodlon parhau.]

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd yr adroddiad ac eglurodd bod yr ymgeisydd wedi cysylltu â'r Cyngor gyda'r bwriad o drwyddedu nifer o gerbydau newydd i'w fflyd - ceir stad Dacia Logan - sydd â gofod coesau o 157mm. Roedd y cerbydau wedi eu gwrthod gan nad oeddynt yn cydymffurfio â pholisi presennol y Cyngor sy'n nodi bod angen o leiaf 200mm o ofod coesau ar gyfer teithwyr. Daeth y polisi i rym ar 1 Gorffennaf 2017 i ddarparu eglurder i ymgeiswyr a chysondeb o ran safon y cerbydau sy'n cael eu trwyddedu. Dywedwyd bod yna eisoes nifer o gerbydau wedi eu trwyddedu cyn mabwysiadu'r polisi presennol, cerbydau na fyddant yn cydymffurfio â'r fanyleb newydd pan fydd hi'n adeg eu hail drwyddedu a gwirio eu cydymffurfedd. Felly, wrth ystyried y cais, bydd yn rhaid i aelodau gydbwysu budd a barn yr ymgeisydd gyda goblygiadau posibl ar fflyd tacsis Sir Ddinbych a'r posibilrwydd o dderbyn mwy o geisiadau o'r fath gan ymgeiswyr yn y dyfodol.

Cyflwynodd yr ymgeisydd ei achos a holi ynghylch dilysrwydd y fanyleb o ran y gofynion gofod coesau sydd, yn ei farn ef, yn rhy gyfyngol o ystyried nad yw'n gwella safonau cerbydau a ddefnyddir nac yn effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd. Dadleuodd hefyd bod yr amod hwn yn eithrio'r rhan fwyaf o geir salŵn a stad canolig a mawr rhag bod yn addas ar gyfer eu trwyddedu. At hynny dywedodd nad yw cerbydau trwyddedig eraill yn Sir Ddinbych ac ardaloedd awdurdodau lleol eraill yn bodloni'r gofynion presennol ond yn darparu digon o ofod coesau ar gyfer teithwyr, fodd bynnag, dywedodd nad yw'n debygol bod y cerbydau hyn yn gweithredu gyda'r seddi ar y gosodiad sy'n darparu'r gofod coesau mwyaf. Credodd pe byddai'r materion hynny wedi eu dwyn i sylw'r aelodau yn y cychwyn cyntaf na fyddai'r cyfyngiad wedi ei gyflwyno. Darparodd yr ymgeisydd fanylion ei fusnes a'i wasanaeth penodol, gan gyfeirio at ei fuddsoddiad cynlluniedig i ddiweddarau ei fflyd a gwella safonau cerbydau. Dywedodd bod y cerbydau newydd yn lân a modern gydag ôl-troed carbon is ac yn darparu'r gwerth gorau i'w fusnes a'i gwsmeriaid. Siaradodd Mr Higginson o blaid yr ymgeisydd ac anogodd yr aelodau i ystyried bod awdurdodau cyfagos yn trwyddedu cerbydau o'r fath ac y dylid rhoi cyfnod rhybudd priodol i'r fasnach drwyddedig cyn gwneud unrhyw newid i fanyleb cerbydau.

Gwahodd y Cadeirydd y Peiriannydd Cydymffurfiaeth Fflyd i ddarparu cyngor i'r aelodau ar y mesurau gofod coesau. Darparodd ateg i'r aelodau gael syniad o'r gwahaniaeth rhwng gofod o 200mm a gofod o 150mm. Mae'r gofyniad o 200mm (o leiaf) yn ganlyniad i nifer o brosesau, gan gynnwys y mesuriadau a ystyriwyd yn deg a rhesymol pan fo'r cadeiriau blaen ar y gosodiad pellaf o'r panel deialau. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd dywedodd y Peiriannydd Cydymffurfiaeth Fflyd bod gofod coesau cerbydau yn amrywio o 60mm i 270mm, gyda'r prif wahaniaeth dros hyn yn ymwneud â'r rhedwr a ddefnyddir gan wahanol wneuthurwyr yn ogystal â math y cadeiriau. Cydnabyddir bod seddau cefn y rhan fwyaf o gerbydau yn darparu gofod coesau llai na 200mm pan fo'r sedd flaen ar y gosodiad pellaf.

Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau'r aelodau fel a ganlyn -

- Byddai addasu rhedwyr seddau yn gwanhau'r strwythur ac yn cael effaith ddifrifol ar ddiogelwch, fodd bynnag efallai byddai modd gosod rhywbeth ar y rhedwr i atal y sedd flaen rhag mynd yn ôl gormod
- Mae gallu'r awdurdod i ddylanwadu ar wneuthurwyr cerbydau o ran y mesuriadau hyn yn afrealistig iawn, o ystyried bod y cerbydau yn cael eu cymeradwyo ac yn destun profion manwl
- Eglurwyd y broses ymgynghori gynhwysfawr a gynhaliwyd ers dechrau adolygu amodau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn 2015, a oedd yn cynnwys dau weithdy ac ymgynghoriad gyda'r holl bartïon a diddordeb, gan gynnwys y fasnach drwyddedig ar ddau achlysur ar wahân. Yn ogystal, darparwyd diweddariadau pellach mewn newyddlenni i ddeiliaid trwydded. Cafodd yr amodau terfynol eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Rhagfyr 2016, a daeth y polisi i rym ar 1 Gorffennaf 2017
- Roedd swyddogion ar gael i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd a chysylltwyd â hwy'n rheolaidd yn hynny o beth – roedd cerbydau hefyd yn cael eu hasesu'n rhad ac am ddim i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion cyn i unigolion ymrwymo i unrhyw gontract ariannol
- Nid yw gofod coesau teithwyr y seddi blaen yn cael ei gwestiynu ac ar y gosodiad gweithredu arferol byddai'r cerbydau hynny yn bodloni'r gofynion gofod coesau
- Nid oes cyfnod ewyllys da ar gyfer y fanyleb gofod coesau a byddai cerbydau trwyddedig nad ydynt yn bodloni'r gofynion ar adeg adnewyddu eu trwyddedau neu yn ystod prawf cydymffurfiaeth yn cael eu hail-drwyddedu. Derbyniwyd bod y rheol newydd yn effeithio ar nifer fawr o gerbydau trwyddedig, gan gynnwys modelau fel Ford Mondeo, BMW 5 Series a Skoda Octavia

Ymatebodd yr ymgeisydd i gwestiynau a materion a godwyd gan yr aelodau -

- O ran bod yn gyfforddus, defnyddiwyd system fonitro gyfrifiadurol wrth gymryd archebion, gan nodi materion symudedd ac eraill a sicrhau bod cerbyd priodol yn cael ei ddefnyddio i gludo cwsmeriaid
- Roedd wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori ynghylch adolygu'r polisi ond o ystyried yr wybodaeth a'r newidiadau mawr o ran oedran a lliw, ni fu iddo sylwi ar y gofynion o ran gofod coesau

- Nid oedd wedi gwirio model Dacia Logan o ran gofod coesau gan nad oedd yn ymwybodol o'r amod newydd a'r goblygiadau, yn enwedig gan fod y math hwn o gerbyd yn cael ei drwyddedu gan y Cyngor
- Roedd y Dacia Logan wedi ei ddewis i'w drwyddedu oherwydd ei fod yn gar stad maint canolig gyda diogon o le i fagiau, sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid, ac oherwydd ei fod yn darparu gwerth am arian. Y bwriad oedd amnewid a moderneiddio'r fflyd bresennol gyda'r cerbydau hynny – ar hyn o bryd mae yna chwe cherbyd dwy oed yn aros am gael eu trwyddedu a phedwar cerbyd newydd arall ar archeb
- Byddai'r rheol newydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o'r cerbydau trwyddedig presennol, ac yn cael effaith niweidiol ar y fasnach drwyddedig

Rhodddwyd cyfle i'r ymgeisydd wneud datganiad terfynol, ond dywedodd nad oedd ganddo unrhyw beth arall i'w ychwanegu.

Cytunodd y pwyllgor i ystyried y cais mewn sesiwn breifat a **PHENDERFYNWYD**, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

Yn dilyn trafodaeth bellach -

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Trwyddedu yn -

- Gwyro oddi wrth bolisi cyfredol y Cyngor i gymeradwyo'r cerbyd yn addas i'w drwyddedu fel cerbyd hacni, a*
- adolygu manyleb y polisi cyfredol sy'n berthnasol i'r gofyniad o ran gofod coesau cyn gynted ag y bo'n ymarferol.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd yr aelodau wedi ystyried achos yr ymgeisydd yn ofalus iawn ac yn derbyn ei fod wedi prynu sawl cerbyd sy'n economaidd, diogel, modern, yn fwy ecogyfeillgar ac yn gwella'r fflyd bresennol. Roedd yr ymgeisydd wedi cyfaddef nad oedd wedi sylwi ar arwyddocâd y gofyniad o ran gofod coesau oherwydd yr holl wybodaeth newydd yn y polisi a'r pryder oedd gan fasnachwyr ynghylch oed/liliw cerbydau. Mewn gwirionedd, mae'r gofyniad o ran gofod coesau yn golygu y byddai nifer fawr o gerbydau trwyddedig yn cael eu tynnu o'r ddarpariaeth. O ganlyniad teimlodd yr aelodau bod y polisi yn cael canlyniadau anfwriadol ar y diwydiant ac yn ymddangos yn gyfyngol iawn. Oherwydd hynny, byddant yn galw am adolygiad o'r polisi er mwyn asesu'r effaith ar draws y diwydiant. Ar yr achlysur hwn, yn arbennig o ran cerbydau'r ymgeisydd, cytunodd yr aelodau i wyro oddi wrth y polisi a chymeradwyo'r cerbydau fel cerbydau addas i'w trwyddedu.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu i'r ymgeisydd.

Ar y pwynt hwn (10.45 a.m.) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

5 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 520509

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â'r canlynol –

- (i) cais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 520509 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) bod y cais wedi ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor Trwyddedu oherwydd methiant yr ymgeisydd â datgelu dwy gollfarn droseddol a ddatgelwyd yn dilyn gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, un yn ymwneud â lladrad (1990) ac un yn ymwneud â gyrru dan ddylanwad alcohol (2004);
- (iii) polisi'r Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau (gan gynnwys methu datgelu collfarnau) a deddfwriaeth berthnasol o ran gwneud datganiad ffug a hepgor gwybodaeth benodol;
- (iv) estyn gwahoddiad i'r ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnu'r pwyllgor.

Manylodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd ar ffeithiau'r achos.

Ymddiheurodd yr ymgeisydd am lenwi'r ffurflen gais yn anghywir ac eglurodd (1) nad oedd wedi sylweddoli bod cofnod o'i drosedd gyntaf oherwydd iddo ei chyflawni pan oedd yn ifanc, a (2) ei fod yn credu bod yr ail gollfarn yn ymwneud â gyrru. Bu iddo wedyn fynd yn ei flaen i egluro amgylchiadau'r collfarnau. Ers hynny mae'r ymgeisydd wedi dal trwydded yrru lân ac yn disgrifio'i hun fel person medrus a dibynadwy. Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd yr ymgeisydd nad oedd wedi darllen y dogfennau perthnasol yn ddigon gofalus, a arweiniodd at hepgor yr wybodaeth wrth lenwi'r ffurflen gais. Credodd y byddai gyrru tacsï yn caniatáu iddo weithio oriau hyblyg, a fyddai'n gyfleus i'w deulu. Yn ei ddatganiad terfynol ymddiheurodd yr ymgeisydd unwaith eto am lenwi'r ffurflen gais yn anghywir, gan ddweud mai camgymeriad ydoedd.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais -

PENDERFYNWYD cymeradwyo cais Ymgeisydd Rhif 520509 am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

